# Adolygiad Blynyddol Grŵp Iechyd Anifeiliaid ar Ymwrthedd — **Gwrthficrobaidd 2025**

Arwain DGC
Defnydd Gwrthficrobaidd Cyfrifol
Responsible Antimicrobial Use

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

**Sefydlwyd Grŵp Iechyd Anifeiliaid Cymru ar Ymwrthedd Gwrthficrobaidd yn 2024 am dymor o bum mlynedd. Mae'r grŵp yn helpu i gynghori Llywodraeth Cymru ac yn cynorthwyo ein dull o fynd i'r afael ag ymwrthedd gwrthficrobaidd (AMR) yng Nghymru. Mae'r gwaith yn cael ei gefnogi gan Arwain DGC (Defnydd Gwrthfioteg Cyfrifol) y mae ei ymdrechion cyflawni yn cyfrannu at Gynllun Rheoli Ymwrthedd Gwrthficrobaidd Anifeiliaid Cymru (2025–2029).**




## Prif Swyddog Milfeddygol yn dathlu llwyddiant yng Ngwobrau Arwain

Cynhaliwyd gwobrau Arwain DGC 2025 yn Sioe Frenhinol Cymru ym mis Gorffennaf. Cyflwynodd Richard Irvine, Prif Swyddog Milfeddygol Cymru, wobrau ar gyfer Milfeddyg Da Byw, Ffermwr Da Byw a Phractis Milfeddygol Da Byw. Cyflwynwyd y gwobrau i filfeddygon a ffermwyr o Gymru a oedd yn dangos ymdrechion rhagorol i leihau'r defnydd o wrthfiotigau ac annog defnydd cyfrifol o wrthfiotigau.

## Llwyddiant parhaus i Rwydwaith Hyrwyddwyr Presgripsiynu Milfeddygol Cymru

Mae rhwydwaith Hyrwyddwyr Presgripsiynu Milfeddygol Cymru (VPC), gyda chymorth tri arweinydd clinigol newydd, wedi profi llwyddiant parhaus eleni. Roedd eu cyfarfod blynyddol, a gynhaliwyd ym mis Mai, yn cynnwys edrych ar sut y gall VPCs ddefnyddio meincnodi wedi'i lywio gan ddata i gynorthwyo eu practisau. Mae'r rhwydwaith hefyd wedi cefnogi gweithdai Iechyd Cyfunol gan ddod â staff milfeddygol a staff meddygol rheng flaen ynghyd yn ogystal â'r rhai sy'n gweithio o flaen y tŷ.

## Cyhoeddi Cynllun Rheoli Ymwrthedd Gwrthficrobaidd Anifeiliaid Cymru (2025–2029)




Cyhoeddwyd cynllun newydd sy'n amlinellu'r nodau a'r targedau ar gyfer lleihau AMR a chynyddu defnydd gwrthficrobaidd cyfrifol yng Nghymru gan y Dirprwy Brif Weinidog ac Ysgrifennydd y Cabinet dros Newid Hinsawdd a Materion Gwledig, Huw Irranca-Davies ym mis Mawrth. Mae'r cynllun yn cyd-fynd â Chynllun Gweithredu Cenedlaethol AMR y DU (2024–2029) a chafodd ei argymell gan Grŵp Iechyd Anifeiliaid Cymru ar Ymwrthedd Gwrthficrobaidd.




## Llwyddiant cyflawni ym maes AMR mewn Gwobrau Cenedlaethol

Cafodd y prosiect AMR a ariennir gan Lywodraeth Cymru, dan arweiniad y consortiwm Arwain DGC, lwyddiant mawr yng Ngwobrau Gwarcheidwaid Gwrthfiotigau y DU eleni. Cyrhaeddodd Arwain DGC y rhestr fer mewn tri chategori ac enillodd y categori Iechyd Anifeiliaid, Amaethyddiaeth a Chyflenwi Bwyd, am ddull cydgysylltiedig y rhaglen ar gyfer AMR mewn da byw yng Nghymru, a'r categori Arloesi a Thechnoleg am eu gwaith gyda Chynhyrchwyr Cig Oen a Chig Eidion Cymru ar gyfrifiannell AMU.

## Cydnabyddiaeth ryngwladol i Raglen AMR Cymru

Mae rhaglen Arwain DGC wedi cael ei chydnabod gan Sefydliad Bwyd ac Amaeth mawreddog y Cenhedloedd Unedig. Cafodd Arwain DGC ei gydnabod am arddangos arloesedd rhagorol wrth hybu gwaith Trawsnewid Da Byw mewn modd Cynaliadwy. Mae hyn yn parhau â'r diddordeb byd-eang mewn rheoli AMR yng Nghymru.



## Gwyliadwriaeth Syndromig o Dda Byw Cymru

Mae chwe phractis milfeddygol wedi cael eu recriwtio i raglen beilot Arwain DGC sy'n cael ei rhedeg gan Brifysgol Lerpwl. Mae dros 50,000 o ymgyngoriadau wedi'u cyflwyno i'r system hyd yn hyn sy'n anelu at ddadansoddi cofnodion iechyd i fonitro defnydd gwrthficrobaidd dros sawl syndrom clinigol.

OGL ©Hawlfraint y Goron 2025, Llywodraeth Cymru, WG53499